# Nodweddion Diddorol

- Mae Tal-y-bont ar dir gweddol wastad lle mae tri chwm yn cwrdd.

- Mae'r Llew Du, un o ddwy dafarn sy'n wynebu'r lôn pentref, yn dafarn y goets sy'n Adeilad Rhestredig Gradd 2. Ffermdy oedd yr adeilad yn wreiddiol, cyn dod yn dafarn gyntaf y pentref ym 1851. Roedd mewn man cyfleus ar gyfer teithwyr ar y ffordd rhwng Aberystwyth a Machynlleth, ac yn yr ardal hon datblygodd y pentref gyntaf oll.

- Dros y canrifoedd, amaeth a gynhaliodd y pentref, ond yn ystod y 19eg ganrif, sefydlwyd mwyngloddiau plwm ac arian a melinau gwlân, gan arwain at gynnydd ym mhoblogaeth y pentref.

- Ym 1849, roedd gan y pentref bum melin wlân ar waith. Roedd rhai gwehyddion yn gweithio o'u cartrefi, ac eraill mewn ffatrïoedd. Gwerthid y wlanen yn lleol i ffermwyr ac i'r mwynwyr plwm. Byddai Thomas Morgan, perchennog Melinau Leri, yn aml yn ymweld â Chyfnewidfa Gwlanen y Drenewydd, lle gwerthwyd cynnyrch i ddilledyddion o Lundain a threfi a dinasoedd eraill Lloegr.

- Roedd y diwydiannau hyn ar eu hanterth yn ystod y cyfnod rhwng 1830 a 1890, ond erbyn y 1920au, roedd y mwyngloddiau plwm wedi cau ac roedd y Dirwasgiad yn bwrw'r diwydiant gwlân hefyd. Caeodd y felin wlân olaf ar ddechrau'r 1980au.

- Yn y 1960au, sefydlwyd cwmni argraffu a chyhoeddi yn y pentref, ac erbyn diwedd y ganrif, Y Lolfa oedd cyflogwr mwyaf y pentref. Comisiynwyd y murlun mawr gan y Lolfa i gynrychioli gwaith y wasg a'i hethos, ac mae'n portreadu arwyr cenedlaethol Cymru.

- Ym mis Mehefin 2012, cafwyd glaw trwm a berodd lifogydd difrifol. Bu dwsinau o dai dan ddŵr yn y pentref; ac ar ben hynny ysgubwyd nifer o bontydd i ffwrdd. Yn ffodus, ni anafwyd neb.





# Points of Interest

- The meaning of Tal-y-bont is 'brow of the bridge'. It lies on relatively flat land where three valleys meet.

- The Black Lion, one of the two inns facing the village green, is a Grade II listed Coaching Inn. The building was originally a farmhouse before becoming the first public house in the village in 1851. This was a convenient stop for travellers on the road between Aberystwyth and Machynlleth, and it was in this area the village first developed.

- Over the centuries, the community was sustained by agriculture but during the 19th century lead and silver mining and woollen mills were established which led to an increase in the village's population.

- In 1849 the village had five woollen mills operating. Some weavers worked from their homes while others worked in factories. The flannel would be sold locally to farmers and the lead miners. Thomas Morgan, the owner of the Leri Mills, would often visit the Newtown Flannel Exchange where produce was sold to clothiers from London and other towns and cities in England.

© Llun/Picture Nigel Forster

- These industries were at their peak during the period 1830 to 1890 but by the 1920s the lead mines had closed and the Depression hit the woollen industry as well. The last woollen mill closed at the beginning of the 1980s.

- In the 1960s a printing and publishing company was created in the village, and by the end of the century Y Lolfa was the village's largest employer. The large mural on the wall was commissioned by the 'Lolfa' to represent the work of the press and its ethos, and depicts Welsh national heroes.

- In June 2012, heavy rainfall caused severe flooding. Dozens of houses were flooded in the village together with numerous bridges being washed away. Luckily no-one was hurt.





# Taith Gerdded Tal-y-bont

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Tal-y-bont Walk



**Dechrau:** Lôn pentref Tal-y-bont
**Cyfeirnod Grid:** SN 654 891
**Pellter:** 3.1 km - 1.9 milltir
**Gradd:** Hawdd/canolig
**Tirwedd:** Ffordd darmac a thraciau gwelltog
Gall fod yn fwdlyd
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer - 213
**Lluniaeth:** Tafarn y Llew Du, Tafarn y Llew Gwyn a siop y pentref

1 O'r lôn pentref, dilynwch y ffordd darmac gyda'r arwydd yn cyfeirio at Bontgoch gan fynd heibio tafarn y Llew Du ar y chwith a'r toiledau cyhoeddus ar y dde. Ewch yn syth ymlaen ar y ffordd hon gan wyro i'r dde lle'r mae'r ffordd yn hollti i ddilyn y ffordd gyda'r arwydd tuag at Nant y Moch.

2 Pan fydd y ffordd yn hollti eto, ewch i'r dde, tuag at Bontgoch, gan droi'n syth i'r dde ar y trac tuag at fferm Berthlwyd. Ewch heibio blaen y tŷ ac i'r chwith trwy iard y fferm, gan droi i'r dde o gwmpas cefn y tŷ allan i barhau i ddilyn y trac. Pan gyrhaeddwch dŷ ar y chwith, trowch i'r dde i gerdded i lawr heibio tŷ allan ar y chwith trwy giât, ac wedyn giât arall, cyn troi i'r dde i lawr llwybr igam-ogam.


© Llun/Picture Nigel Forster

3 Croeswch y bont ac ewch i fyny er mwyn cyrraedd trac tarmac; wedyn trowch i'r chwith a thrwy giât ac ymlaen nes i chi gyrraedd arwyddbost bys. Trowch yn sydyn i'r dde i ddilyn y llwybr gwelltog i fyny'r bryn, gan fynd heibio tŷ ar y chwith. Ewch yn syth ymlaen ar y llwybr trwy giât, gan anwybyddu troad ar y dde i gyrraedd camfa ar y dde ychydig cyn giât arall.

4 Ewch dros y gamfa, ac yn groeslinol i lawr y bryn i ddringo camfa arall yn y gornel dde ar waelod y cae. Dilynwch y llwybr suddedig i lawr i'r ffordd, wedyn trowch i'r dde i gerdded yn ôl i'r lôn pentref. Does dim pafin ar y rhan gyntaf o'r ffordd, felly gofalwch rhag y traffig.



**Start:** Tal-y-bont village green
**Grid Reference:** SN 654 891
**Distance:** 3.1 km - 1.9 miles
**Grade:** Easy/moderate
**Terrain:** Tarmac road and grassy tracks
Can be muddy
**Maps:** OS Explorer - 213
**Refreshments:** Black Lion, White Lion pub and village shop

1 From the village green take the tarmac road signposted Bontgoch passing the Black Lion hotel on your *L* and the public toilets on your *R*. Continue along this road bearing *R* where the road splits to follow the road sign posted Nant y Moch.

2 At the next fork, keep *R*, signposted Bontgoch, and turn immediately *R* along track to Berthlwyd farm. Pass the front of the house and *L* through the farm yard, turning *R* around the back of the outbuilding to continue along the track. When you reach a house on your *L*, turn *R* to walk down past an outbuilding on your *L* through a *G*, then another, before turning *R* down a zig zag path.



3 Cross the bridge and walk up to reach a tarmac track then turn *L* through a *G* and on until you reach a finger post. Turn sharp *R* to follow the grassy track uphill, passing a house on the *L*. On along the path through a *G*, ignoring a turning on your *R* to reach a *S* on the *R* just before another *G*.

4 Go over the *S*, and walk diagonally *R* downhill to climb another *S* in the bottom *RH* corner of the field. Follow the sunken path down to the road, then turn *R* back to the village green. There is no pavement on first section of road, so take great care of passing traffic.




# Taith Tal-y-bont Walk

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014
© Lluniau/Pictures Jeremy Moore